# Y DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH | RHAGFYR 1975 | RHIF 26




*Plant bach o Gaerdydd yn cael croeso gan Siôn Corn yng Nghanolfan Teledu Harlech (gweler "Hamdden" Rhagfyr 22 am 2.00p.m.).*

## Shalom! Shw Mae?


**Ar nos Sul, Tachwedd 30, cafwyd cyngerdd unigryw yn Neuadd y Sherman, un wedi'i drefnu ar y cyd gan bwyllgor Cronfa'r Mil o Filoedd a phwyllgor o Iddewon y ddinas.**

**Roedd y neuadd dan ei sang i wrando ar gôr penillion Rhydfelen ac unawdwyr o'r ysgol yn datganu gyda graen. Yn dilyn yr oedd Miss Ann Griffiths a'i chôr telyn — hwythau hefyd yn denu pawb yn llwyr. Côr Iddewig Zimriyah oedd biau'r ail hanner a chafwyd ganddyn nhw berfformiad deheuig o ganeuon Iddewig ac eraill.**

*(Parhad tud. 11)*

**Cofiwch am anrheg Nadolig i'r *Dinesydd*! Danfonwch gyfraniad, bach neu fawr, ar frys at:**

**Mr Geraint Walters, Trysorydd *Y Dinesydd*, 29 The Rise, Llanishen, Caerdydd.**




"Meazey'n fachgen ieuanc ffol!"

# Trugareddau

Mae pawb â chwts dan staer yn llawn o drugareddau diddefnydd, diwerth (os nad ydych chi'n bobl deidi anarferol!). Neu garej yn gorlifo o sbwriel, a'r car yn sefyll allan yn y glaw yn rhydu. Neu deganau y mae'r plant wedi hen dyfu mas ohonyn nhw, ond sy'n rhy dda i'w taflu — fel y siglen yng ngardd Barnwr adnabyddus yn y cylch.

Dyma'r pwynt: diddefnydd a diwerth i chi, ond fe allent fod yn ddefnyddiol ac o werth mawr i bobl eraill — ac fe allent fod yn gyfrwng codi arian sylweddol i Gronfa'r Eisteddfod Genedlaethol. Mae *Y Dinesydd* wedi cytuno i wneud cyfraniad i'r Gronfa drwy agor ei golofnau bob mis mewn ymdrech i ddod â'r teclyn a'r cwsmer at ei gilydd! Felly, os oes gennych declyn da ail-law o unrhyw fath y byddech yn fodlon ei gyfrannu i Gronfa'r Mil o Filoedd (neu o leiaf gyfran o'r pris a geir amdano), y cwbl sydd raid ei wneud yw ffonio CAERDYDD 753695 i roi'r manylion. Yn yr un modd, os oes arnoch chi eisiau rhyw declyn ail-law am bris rhesymol, ffoniwch yr un rhif gan grybwyll y pris y byddwch yn fodlon ei dalu.

Pa fath o bethau fydd ar werth? Wel, pethau go sylweddol, gobeithio: o'r hen beiriant golchi a gafodd ei ddisodli gan yr un newydd, i degan y plentyn a dyfodd lan yn sydyn; o'r set deledu ddu a gwyn a gafodd fynd i'r llofft pan ddaeth yr un lliw, i'r tegell trydan sbâr o'r ddau a gafwyd yn anrhegion priodas! Hen radio, hen deipiadur, hen unrhyw beth — ond ei fod yn gweithio'n effeithiol neu'n bosib ei drwsio heb ormod o drafferth.

Bob mis, bydd *Y Dinesydd* yn cyhoeddi rhestr o'r nwyddau a dderbyniwyd i'w gwerthu ynghyd â rhestr o anghenion pobl. Apeliwn arnoch oll i gefnogi'r cynllun hwn: gall godi cryn swm o arian, a gall hefyd ddatblygu'n wasanaeth gwirioneddol ddefnyddiol.

Eisoes, mae gennym un eitem i'w gwerthu, sef TRACTOR amryliw, cryf y gall plentyn ei yrru. Mai hwn yn un newydd sbon (drwy garedigwrydd Cwmni Triang) ac y mae ar werth yn siopau Caerdydd am bron £18 — felly, dyma'ch cyfle os oes angen tractor arnoch ar gyfer y Nadolig! Ffoniwch CAERDYDD 753695 gyda'ch cynnig — y cyntaf i'r felin......!

# 'Nabod Caerdydd

*Â'r hâf wedi darfod a dail yr hydref dros y palmantau mae pawb yn cilio i'w cregyn dros y gaeaf. Mae'r gadair freichiau'n cymryd lle mynd allan am dro gyda'r hwyr, Kojak yn bwysicach nag adroddiadau'r tywydd, a phawb yn hoelio'u sylw ar 'Rugby Special' yn lle'r machlud mwyn y tu allan. Mae'n amser rhyfedd felly i mi geisio'ch perswadio i dreulio rhai munudau'n ystod y gaeaf yn meddwl sut i dreulio nosweithiau hirion hyfryd yr haf y flwyddyn nesaf, ond beth am ysgafnhau'r gaeaf â rhai syniadau?*

*'Ble cawn ni fynd?' 'Beth fydd yna i'w weld?' 'Beth gawn ni wneud?'. Dyma gwestiynau dibaid y plant gydol penwythnosau'r hâf. Â phris petrol a chost rhedeg car mor echrydus o uchel mae'n rhaid i Dad chwilio am atebion yn Llanishen neu'r Eglwys Newydd. Mae hi wedi mynd yn rhy ddrud i ruthro i Fannau Brycheiniog i chwilio am bleserau'r wlad.*

*Beth am edrych yn nes gartre 'te Dad? Mae gan Gaerdydd a'r cyffiniau ddigon i'w gynnig ar gyfer adloniant pnawn Sul.*

*Mae'r wlad fel petai'n treiddio i ganol y ddinas ei hun, yn arbennig felly wrth ddilyn glannau'r afon Taf. Beth am anturio i gefngwlad Caerdydd — dilyn trywydd yr afon o Erddi Sophia i'r Eglwys Newydd? Mae gan Adran Parciau Dinas Caerdydd lyfryn hwylus yn nodi'r prif bwyntiau diddorol ar y daith, i'ch cyfarwyddo. Gellir cael llyfrynnau cyffelyb ar y parciau eraill hefyd; fe gewch syndod i ddarganfod beth sy i'w weld ym Mharc Victoria, Parc Thomson a Chaeau Llandâf. Ewch i ofyn am y llyfrynnau!*

*Os ydych am ddefnyddio'r car i ddianc o'r ddinas, o fewn ychydig filltiroedd i'r dref, mae cryn amrywiaeth o deithiau cerdded diddorol; trwy goedwigoedd Tair Onnen, ucheldir comin y Garth a Chaerffili, parc gwledig Cefn Onn, neu hen lanfa camlas Morgannwg gynt ger yr Eglwys Newydd. Agorodd ffermwr o Wenfrô ei fferm i'r cyhoedd un Sul y llynedd, — efallai y cewch gyfle i fynd â'r plant i'w gweld eto yn 1976.*

*Rhaid peidio anghofio'r ddinas ei hun 'chwaith. Ewch am dro i lawr Heol y Frenhines rhyw bnawn Sul. Edrychwch i fyny ar do'r adeiladau uwchben y siopau. Fe fydd yn rhaid ichi ofalu peidio taro i'r polion lampau — ond fe fydd yn werth y drafferth. Cewch gipolwg ar gefndir hanesyddol a thŵf y ddinas.*

*Ydych chi'n cofio'r adeiladau yna gerllaw'r Theatr Newydd a gwesty'r Parc? Maen nhw'n fawreddog ac yn edrych yn debyg i dai Venice. 'Pam?' meddech chi. Wel, fe gewch yr ateb os edrychwch chi tu ôl i'r Theatr Newydd — hen gamlas Morgannwg. Ydych chi'n cofio mynd am dro hyd ymyl yr un gamlas yn yr Eglwys Newydd? Ar un adeg yr oedd y gamlas hon yn bwysicach na'r ffyrdd ar gyfer masnach y ddinas.*

*Yna daeth y rheilffordd i Gaerdydd. Sylwch ar yr orsaf ger y 'Pig and Whistle' yn Heol y Frenhines a gwelwch sut y bu i'r rheilffordd lesteirio datblygiad y siopau ar hyd yr heol am Gasnewydd.*

*Trwy syllu, gwrando, cyffwrdd, gwynto, holi; trwy ddefnyddio'ch holl synhwyrau gellwch fwynhau, gwerthfawrogi a deall Caerdydd o'r newydd. 'Does dim rhaid wrth lyfrynnau cyfarwyddyd — mae'n fwy o hwyl dysgu o'ch profiad eich hun, a gadael i'r plant ddarganfod y ddinas drostyn nhw'u hunain.*

*Pam aros tan yr hâf? — Mae'n ddiwrnod braf heddiw — beth am fynd am dro 'nawr?*

TERI STEVENS.

MOUNT SORREL

HEOL PORTHCERI
Y BARRI, DE MORGANNWG ☎ 3600

** A.A.
R.A.C.

GWESTY GYDA 40 O YSTAFELLOEDD GWELY.
(35 gyda ystafelloedd ymolchi preifat.) Teledu, Radio etc. ymhob ystafell.

CYNADLEDDAU
PRIODASAU
CINIO A DAWNS

GWYLIAU GAEAF £11.50 + T.G.
am benwythos

Cinio dydd Sul 12.30 - 2.00p.m.

Ystafell fwyta a bariau cyhoeddus

Ni fydd rhifyn o'r *Dinesydd* yn ymddangos ym mis Ionawr, ond fe fydd rhifyn mis Chwefror allan yn gynnar yn y mis hwnnw. Dylid danfon deunydd ar gyfer rhifyn mis Chwefror erbyn IONAWR 26ain at: Siân Edwards (Golygydd), 66 Heol Maendy, Cathays, Caerdydd.

Hysbysebion erbyn IONAWR 30ain fan bella, at: Cyhoeddiadau ap Dafydd Cyf., 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd. Ffôn: 396262.

## CALENDR RHAGFYR-CHWEFROR

**RHAGFYR**

| | |
|---|---|
| 15 | Clŵb Tŷ'r Cymry SWPER NADOLIG 7.30p.m. |
| 24 | Gwasanaeth Cymraeg yng nghapel SOAR Y FRO 10.30p.m. |
| 26 hyd ION 3 | Theatr yr Ymylon MADAM WEN Sioe Nadolig Saesneg i blant. Theatr Sherman 7.30p.m. a 2.30p.m. brynhawn Sadwrn. |

**IONAWR**

| | |
|---|---|
| 3 | Cymdeithas y Cymrodorion NOSON O ADLONIANT Capel Heol Crwys. |
| 6-10 | Cwmni Theatr Cymru AFAGDDU Hwyl i bawb gyda'r Pantomeim. Theatr Sherman 7.30p.m. |
| 12 | Clwb Tŷ'r Cymry NOSON Y CYN-LYWYDD Gwilym Williams 7.30p.m. |
| 14 | Cymdeithas Lenyddol Caerdydd Y DDRAMA HEDDIW John Gwilym Jones. Theatr Bute, Coleg Cerdd a Drama 8.00p.m. Merched y Wawr DATHLU'R HEN GALAN yng nghwmni'r Dysgwyr. Canolfan yr Urdd 7.30p.m. |
| 19 | Clwb Tŷ'r Cymry GYRFA CHWIST 7.30p.m. |
| 26 | Clwb Tŷ'r Cymry. Bernard Evans yn trafod BLODEUWEDD mewn noson i ddisgyblion Chweched Dosbarth. 7.30p.m. |
| 30 a 31 | Cronfa'r Mil o Filoedd NOSON O DDRAMAU Theatr Bute Coleg Cerdd a Drama. |

**CHWEFROR**

| | |
|---|---|
| 6 | Theatr Reardon Smith DAFYDD IWAN a'i sioe un-dyn. 8.00p.m. Yr elw i Ysgol Feithrin Llysfaen. Cymdeithas y Cymrodorion TRADDODIAD BRO MYRDDIN Vincent Phillips Capel y Tabernacl. |
| 9 | Cronfa'r Mil o Filoedd NOSON WERIN DRADDODIADOL — Cawl a Chân. Canolfan Gelfyddydau CHAPTER. |

## EGLWYS LLYSFAEN

Cynhelir gwasanaeth Cymraeg yn eglwys y Bedyddwyr, Llysfaen am 4.00p.m. ddydd Sul, Rhagfyr 21. Dyma'r ail wasanaeth Cymraeg i'w gynnal yn yr eglwys hon: bu'r ymateb yn dda iawn hyd yn hyn a gobeithir cynnal gwasanaethau Cymraeg yn rheolaidd yno yn y dyfodol.

Ysgol Feithrin Llandaf
NOSON HEN GALAN
Cyflwynydd — Meredydd Evans
Nos Sadwrn
Ionawr 10ed 1976
7.30p.m.
Neuadd Goffa
Llandaf
Tocyn — £1
yn cynnwys adloniant, gwin a chawl
*TOCYNNAU gan Mair Owen Caerdydd 564574*

# Ar Droed i Dresaith

Mae'n debyg i chi ddarllen yn *Y Dinesydd* ym mis Hydref am y daith gerdded fawr o Rydfelen i Dresaith, a hynny er mwyn ceisio codi arian at gyrsiau haf plant y flwyddyn gyntaf yn Rhydfelen. Pleser yw cyhoeddi fod y daith wedi ei chwblhau'n llwyddiannus ac, o drugaredd, o dan awyr las bob dydd!

Cychwynnodd y triarddeg o gerddwyr o Ysgol Rhydfelen brynhawn Gwener Hydref 24ain i gymeradwyaeth fyddarol oddi wrth y mil o blant a fu mor ddyfal yn casglu arian i gefnogi eu harwyr yn ystod yr wythnosau blaenorol. Buan iawn y cyrhaeddasom Lanwonno a dwyn i gof yno, ym mynwent yr Eglwys, un a fu'n teithio dipyn yn gyflymach na ni yn ei ddydd, sef Guto Nyth Bran. Drwy'r goedwig o binwydd wedyn, a thros fynydd Maerdy i lawr i Hirwaun. Ni all yr ychydig linellau hyn ddwyn tystiolaeth i'r blinder a deimlasom wrth orffen y cam cyntaf o'n taith, gyda'n llety yn Hirwaun a'n *Sherpa* John Owen (a yrrai fws yr ysgol i gario'n paciau, ac a goginiodd fwyd i ni bob dydd) yn ein disgwyl.

Yn gynnar drannoeth, ar ôl bwyta brecwast a baratowyd gan rieni a rhai o blant Rhydfelen sy'n byw yng nghylch Hirwaun, cerddasom ymlaen tuag at Ystradfellte - a braf oedd golchi ein traed yn yr afon fan honno! Teithio wedyn ar draws gwlad i lawr i Dafarn y Garreg uwchlaw Abercraf, ac i fyny i gyfeiriad Llyn y Fan Fawr. Treuliasom yr ail noson mewn hen ffermdy anghysbell (sydd erbyn hyn yn ganolfan antur) a'n meddyliau yn crwydro nôl i'r oes o'r blaen wrth eistedd o flaen tanau agored yn llosgi coed!

Chwythai'r gwynt yn gryf wrth i ni ddringo heibio i Lyn y Fan Fawr drannoeth ond gwenodd yr haul drachefn a bwrw ymlaen a wnaethom heibio i Landdeusant a thrwy Langadog nes inni orffen taith y Sul yn Nhalyllychau. Yna, camu heibio i hen efail Tomos Lewis ac ymlaen at Rydycymerau. Aros ennyd ger hen gartref D.J. Williams, ac hefyd ar lan ei fedd, a chofio am ei ddisgrifiadau byw o'i fywyd cynnar yn *Hen Dy Ffarm*.

Llanybydder oedd ein trigfan ar noson olaf ein taith, ac wrth fynd oddi yno drwy Gwrtnewydd, er nad oeddem wedi bwriadu casglu arian ar y ffordd, fe'n llonnwyd gan haelioni nifer o'r pentrefwyr a gyfrannodd at y gronfa!

Cyrhaeddasom Dresaith tua hanner dydd ar ddydd Mawrth, Hydref 28ain, ond nid oedd cynifer yn ein disgwyl yno ag â ffarweliodd a ni. Diolch yn fawr i Gwilym Thomas am ddod! (Ond daeth un neu ddau arall ymhen ychydig.)

Wyth deg pump milltir! A oedd e'n wrth y drafferth? Barnwch chi: ein nod oedd dwy fil o bunnau, a daeth pymtheg cant eisoes. Cofiwch, ddarllenwyr *Y Dinesydd*, mae digon o le eto yn y gronfa!





CAERDYDD — THEATR SHERMAN

6 - 10 Ionawr 1976
am 7.30 bob nos
Tocynnau £1.00 (Plant 50c) o
Swyddfa Docynnau'r Theatr (Caerdydd 25855)
Holer yn y Theatr ynglŷn â gostyngiadau

**Hwyl Fwya'r Flwyddyn**


# Côr yn dathlu Penblwydd

Dathlwyd pymthegfed penblwydd Cymdeithas Gorawl Aelwyd Caerdydd yn Neuadd Gyngerdd Prifysgol Caerdydd ar nos Sadwrn Tachwedd 22ain gyda pherfformiad arbennig o waith newydd a gomisiynwyd gan y Côr gyda chymorth ariannol Cyngor y Celfyddydau.

Cyfansoddwyd y gwaith newydd gan y cerddor Cymreig enwog, Arwel Hughes. Teitl y gwaith yw "Tri Darlun" sef detholiad o "Ymadawiad Arthur" T. Gwynn Jones; englynion "Llys Ifor Hael" Ieuan Brydydd Hir a detholiad o "Llys Esgob Llanelwy" Iolo Goch. Cafodd y gwaith dderbyniad gwresog a brwdfrydig gan y gynulleidfa luosog, a braf oedd gweld a phrofi o'r croeso a gafodd y cyfansoddwr gan ei gyd-ddinasyddion.

Yn ogystal â'r perfformiad gwefreiddiol o "Tri Darlun", cafwyd perfformiadau gwych o "Offeren yn C Fwyaf" Beethoven ac "Anthem Chandos Rhif 9" Handel.

Cyfarwyddwyd ac arweiniwyd y perfformiad gan Alun Guy, gyda chymorth David Hamley wrth yr organ a cherddorfa o gyn-aelodau Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru. Yr unawdwyr oedd Hazel Evans, Susan Lees, Charles Corp ac Iwan Guy.

Yn dilyn y cyngerdd cynhaliwyd "buffet" yng Ngwesty'r Parc, Caerdydd, lle cafodd is-lywyddion, ffrindiau, unawdwyr ac aelodau'r côr gyfle i gwrdd ag Arwel Hughes. Wedi anerchiad byr gan Alun Guy, arweinydd y côr, cyflwynwyd albwm o recordiau Mahler i'r cyfansoddwr gan gyfeilydd y côr, David Hamley, i gofio'r achlysur.



*Arwel Hughes, Alun Guy ac aelodau o'r Côr.*

# TUDALEN Y DYSGWYR

## *NEWYDDION*

*Mae'r Nadolig ar ddod eto ac mae pcwb yn brysur iawn yn prynu anrhegion, cardiau ac ati. Ond mae popeth wedi mynd mor ddrud, felly mae'n rhaid prynu'n ofalus iawn. Mewn geiriau eraill, cofiwch brynu rhywbeth Cymraeg. Ga' i awgrymu rhai anrhegion addas i bobl sy'n dysgu Cymraeg.*

1. *Llyfr newydd Cennard Davies, "Gweld, Dweud a Gwneud".*
2. *Y Geiriadur Bach. Mae hwn yn ddigon bach i'w gario gyda chi i bobman, ym mhoced eich trowsus neu yn eich bag llaw.*
3. *"A Welsh Vocabulary Spelling Aid" gan Megan Jones.*
4. *Os oes gyda chi ffrind sydd heb ddechrau dysgu Cymraeg, beth am brynu'r cwrs "Dewch i Ddysgu Cymraeg — Llyfr Un" iddo/iddi?*
5. *Dau lyfr gan Ifor Owen, i'w darllen yn y gwely: "Dial Dau" a "Four Stories for Welsh Learners".*
6. *Bydd pawb wrth gwrs yn prynu'r gêm geiriau Cymraeg "Cant ac Un". Mae hon yn gêm i bawb, a digon o hwyl wrth ei chwarae i ddysgwyr a Chymry Cymraeg.*

*Ga' i awgrymu record hir neu ddwy hefyd. Mae record hir newydd allan gan Hogiau'r Wyddfa — dyma ffordd dda i ddysgu peth o farddoniaeth fawr Cymru wrth wrnado ar hon. I bobl ifanc, fe fydd y record "Nia Ben Aur" yn boblogaidd iawn, rydw i'n siwr.*

*Cofiwch anfon cardiau Nadolig Cymraeg i bawb. Mae pobl yn dweud weithiau, "Dydw i ddim yn adnabod neb sy'n siarad Cymraeg i anfon cerdyn iddo/iddi". Rydw i'n dweud, "Does dim ots, mae rhywun sy ddim yn deall Cymraeg yn aml yn hapus iawn i gael cerdyn mewn iaith wahanol". Clywir hyn weithiau: "Oh, how quaint, a Christmas card in Welsh — I didn't know there were any..." ...Ie wir, o wel, fel yna ma' hi!! Mae'n bosibl prynu'r cyfan yma yn un o siopau llyfrau Cymraeg Caerdydd, sy yn y Wyndham Arcade!*

*Son am y Nadolig, ydych chi'n gwybod y gair "calennig"? Mae'r hen arferiad hwn o ganu o ddrws i ddrws ar ddydd Calan (Ionawr 1af) bron â marw allan, dwi'n meddwl, yng Nghymru, heblaw am Sir Aberteifi, wrth gwrs! Arferiad arall yn perthyn i'r Nadolig Cymraeg yw mynd â'r pen ceffyl, Y Fari Lwyd, i alw o dŷ i dŷ. Roedd yr arfer hwn bron â marw hefyd ond mae Aelwyd yr Urdd yng Nghaerdydd wedi ei ail-ddechrau yn y blynyddoedd diwethaf.*

*O ie, un noson bwysig i bawb i roi yn ei ddyddiadur wedi i'r Nadolig fynd heibio. Mae Dafydd Iwan yn dod i ganu yn Theatr Reardon Smith nos Wener, 6ed Chwefror am 8.00p.m. Pris y tocynnau: 75c. Tocynnau ar gael oddi wrth Tegwen Evans, 54 Fidlas Road, Llanishen, (Ffôn: 754559).*

*Nadolig Llawen a Blwydd-yn Newydd Gymraeg i bawb.*

JOHN ALBERT

## Cystadleuaeth Gŵyl Dewi

**Dyma gyfle arall i chi'r dysgwyr i gystadlu ar ysgrifennu stori fer. Mae pawb yn gwybod am Gystadleuaeth Gŵyl Dewi papur lleol arall yma yng Nghaerdydd, ond does dim cystadleuaeth gyda nhw ar gyfer dysgwyr — felly dyma *Y Dinesydd* yn llanw'r bwlch.**

**Danfonwch eich stori fer (ar unrhyw bwnc) at: Y Golygydd, 66 Heol Maendy, Cathays, Caerdydd erbyn CHWEFROR 23. Rhowch *ffugenw* ar y stori ei hun, a'ch enw a'ch cyfeiriad ar ddarn arall o bapur, gan nodi ers faint rydych chi wedi bod yn dysgu Cymraeg.**

**Fe gyhoeddir enwau'r buddugwyr yn rhifyn Mis Mawrth 1976. Mae Mr Leighton Davies wedi cynnig yn hael i roi gwobrau unwaith eto, sef gwerth £10, £5, £2.50 a £1 o docynnau llyfrau Cymraeg, ac mae Mr Illtyd Lewis yn garedig iawn wedi cytuno i feirniadu unwaith eto. Felly, ewch ati i ysgrifennu dros wyliau'r Nadolig — a chofiwch, y dyddiad olaf i dderbyn gwaith yw CHWEFROR 23.**

Carai'r Bwrdd Golygyddol gydnabod yn ddiolchgar gymorth ariannol Cymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru.

## Dim ond Gair Byr......

*Dyma lythyr difyr a ysgrifennwyd gan Dic Kiff, un o ddysgwyr Caerdydd.*

Annwyl Wmffre,

Rydw i'n gobeithio dy fod ti'n iawn. Mae pawb yma mewn hwyliau da.

Does dim llawer o newyddion i ddweud wrthot ti, dim ond y pethau arferol. Cafod y gath gathod bach yn het bowler fy nhad, ond symudodd nhw rhag ofn buasen nhw'n tyfu fyny gyda ysgwyddau crwn. Cafodd mam ei dannedd i gyd mas ac mae hi wedi bod yn sal am wythnos nawr. Dim byth eto meddai hi.

Gyda llaw, fyddet ti'n rhoi benthyg i fi dy lyfr "Daeareg — dysgwch eich hunan". Mae llawer o gerrig yn fy ngardd a dylwn i eu clirio nhw cyn i fi drefnu gwersyll ar gyfer pobl fydd yn dod i'r Eisteddfod yng Nghaerdydd. Dylai fod lle i gannoedd o ymwelwyr yn yr ardd o flaen y tŷ a lle arbennig tu ôl i'r tŷ i aelodau Cymdeithas yr Iaith fydd yn meddwl taw dim ond nhw fydd yn yr Eisteddfod.

Mae'n rhaid i fi gwpla nawr; petaset ti'n anfon y llyfr byddwn i'n ddiolchgar.

Hwyl,

Dic.

Un peth arall — anfon y tŷ-bach cludadwy hefyd.

### CALENDR Y DYSGWYR

| | |
|---|---|
| IONAWR 14 | Merched y Wawr **DATHLU'R HEN GALAN** yng nghwmni'r dysgwyr Canolfan yr Urdd 7.30p.m. |
| CHWEFROR 2 | Clwb Tŷ'r Cymru **NOSON GOFFI CROESAWU'R DYSGWYR** 7.30p.m. |
| MAWRTH 12 | **CWRS PENWYTHNOS YN LLANGRANNOG** Manylion oddi wrth J.A. Evans, 54 Fidlas Road, Llanishen. |
| MAWRTH 19 | **CWRS PENWYTHNOS YN Y DYFFRYN** Manylion oddi wrth Y Warden |


GORFFWYSWCH - YMLACIWCH



CERBYDAU WENALLT

(Perchennog J.M. CROOKES)

Cerbydau moethus gyda 20-51 o seddau i'w hurio

SWYDDFA DOCYNNAU

Ffôn Caerdydd 31174

Gwasanaeth ateb pedair awr ar hugain

WHITTLE ROAD, LECKWITH ESTATE, CAERDYDD.

# miri'r ŵyl




**Wn i ddim faint o ddarllenwyr *Y Dinesydd* sy'n gwybod am MIRI CYMRU. Cwmni ydyw a sylfaenwyd gan ddyrnaid o bobl i roi gwaith i wragedd a merched cefn gwlad Cymru. Mae'r cwmni wedi gweithio am ychydig dros ddwy flynedd erbyn hyn a chynhyrchir pob math o deganau (yn bennaf) gan y gweithwyr. Nid oes gan y cwmni siop a'r unig adeg y gwerthant eu nwyddau ar raddfa weddol fawr ydyw yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Byddant yn mynd at gymdeithasau sy'n eu gwahodd i ddod â'u nwyddau atynt ac fe fyddant yn gofyn am ddod at eraill, fel yng Nghynhadledd Flynyddol Merched y Wawr yn Aberystwyth eleni. Bob hyn a hyn, fe gânt archebion drwy asiant (agent).**

Ond nid yw hyn oll yn ddigon o farchnad iddynt o bell ffordd. Yn aml iawn mae'r teganau yn cronni ac yn dawel bach i chi, maent yn gweiddi am gael eu prynu a'u hanwylo gan ryw blant bach o Gymry. Fe synnech mor ddeniadol ydynt i gyd. Fe gewch yn eu plith yr enwog Galeb, yr annwyl Sali Mali, y Mochyn Bach Pinc tew, deniadol, ynghyd ag ŵyn, cŵn ac ati, ac ati. Mae pob tegan wedi ei wneud o ddeunydd addas i blant bach ac fe'ch sicrheir nad oes dim ynddynt nac arnynt a allai fod yn beryglus i iechyd neu i fywyd eu perchenogion bach.

Mae gan MIRI CYMRU ar hyn o bryd hefyd grochenwaith a gemwaith, siolau a dillad plant wedi eu crosio a'r clocsiau mwyaf lliwgar a welsoch erioed — i gyd wedi eu gwneud yng Nghymru.

Da chi, dewch i roi cymorth i ferched a gwragedd cefn gwlad Cymru. Mae rhai'n byw yn y Gogledd (ardaloedd llyn Tegid, Llanfair Caereinion, Dinas Mawddwy er enghraifft) ac eraill yn y De. Mae ar eraill awydd ymuno â'r gweithwyr hyn pan fo'u plant bach wedi dechrau yn yr ysgol.

Gobeithio eich bod, ddarllenwyr hynaws, erbyn hyn am weld y cynhyrchion amryfal hyn ac wedyn am eu prynu; mae mwy nag a ddwedais i'w cael yn ogystal.

Felly dewch i dŷ Mair a Haydn Jones yn 5 Rookwood Close, Llandaf (Ffôn: 565457) ac fe gewch weld y cynnyrch i gyd. Yn wir i chi, ni welwch eu gwell yn unman, ac fe'u prynwch — gan synnu nad ydynt yn ddrutach!

M.E.T.

### EGLWYSI CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH

Annibynnwyr - Bethlehem, Sblot, 11.00 a 6.00, Ebeneser 10.45 a 6.00*. Efail Isaf Gwaelod y Garth 10.30 a 6.00**. Minny Street 10.30 a 6.00*. Severn Road 11.00 a 6.00*.
Bedyddwyr, Tabernael (Yr Ais) 11.00 a 6.00**.
Yr Eglwys Esgobol, Dewi Sant 8.00, 11.00 a 6.00*.
Methodistiaid, Bethel 11.00*.
Presbyteriaid, Heol y Crwys 10.45 a 6.00**. Salem, Canton 10.45 a 6.00*.

* Ysgol Sul y Bore ** Ysgol Sul y prynhawn.

# Rhywbeth i'r Hosan

**Amheuthun iawn yw'r toreth o lyfrau clawr-papur Cymraeg sy'n dylifo o weisg Cymru bellach, gan ddilyn gwaith arloesol Gwasg Gomer a Gwasg y Lolfa yn y maes hwn. Maent yn ddeniadol, yn ddigon cyfleus eu maint i'w llithro i'r boced, ac yn ddigon rhesymol eu pris i haeddu lle ym mhob hosan Nadolig.**

Cyfrol newydd hynod o ddiddorol yw *Geiriadur y Gwerinwr* (D. Moelwyn Williams) sef "ymgais... i osod ar gof a chadw iaith cefn gwlad, yn arbennig felly mewn perthynas â Natur o'n cwmpas" yn ôl yr awdur. Ceir yma ddetholiad cynhwysfawr gydag enghreifftiau di-ri o'r modd y defnyddir y geiriau hyn ym marddoniaeth a rhyddiaith Cymru, nes gwneud hwn yn "eiriadur" sy'n bleser i'w ddarllen fel llyfr. Fy unig gŵyn yw'r ffaith mai geiriadur unochrog Saesneg-Cymraeg yw'r gyfrol — defnyddiol dros ben ar lawer achlysur, ond dim affliw o iws pan fydd dyn am ddod o hyd i ystyron hen dermau gwlad Cymraeg. Ac mae 'na gyfoeth o eiriau Cymraeg gwerinol, cefn gwlad sydd â'u hystyron yn ddirgelwch i ni Gymry trefol, diwreiddiau y genhedlaeth hon. Felly, beth am gymar Cymraeg-Saesneg i'r gyfrol hon cyn gynted ag sy'n bosibl?

Cyfrol hyfryd hefyd yw *Nabod Bro a Brodorion* T.J. Davies, casgliad o ysgrifau ar yr aml gymeriadau y daeth yr awdur ar eu traws dros y blynyddoedd yng Ngheredigion. Mae'n anodd dethol un hysgrif i'w chanmol yn arbennig (er bod Cymdoges yn ffefryn arbennig gennyf fi); maent oll yn hudolus ac yn llawn gyfiawnhau broliant y clawr, sef "dyma gamp yr awdur, mae'n 'gweld', mae'n 'clywed', mae'n 'synhwyro', gall diwnio i donfedd y cymeriadau a chael o hyd i gyfrinach bob un." Ceir cofiant byr diddorol gan T. Ceiriog Williams i *Robert Owen*, y sosialydd mawr a lwyddodd i wireddu llawer o'i athroniaeth am gymdeithas gydweithredol, ddiddosbarth, heddychol, oleuedig — am gyfnod o leiaf. Mae yn y gyfrol luniau a chynlluniau diddorol dros ben sy'n dystiolaeth weledol i orchestwaith Owen, pentref diwydiannol New Lanark yn yr Alban lle llwyddodd Owen i greu cymdeithas "newydd" ar bob agwedd, er gwaethaf methiant menter New Harmony yn yr Unol Daleithau yn ddiweddarach.

O'r cyfrolau clawr-papur a daeth i'm dwylo, fy ffefryn oedd *Crafu Ceiniog* gan Idwal Jones. Thema'r gyfrol yw pwnc llosg cyflogau gweinidogion, a'r sefyllfa bresennol lle'r ymddengys mai gweinidogion rhan-amser yn ennill "y jam i'w roi ar y bara menyn" drwy swyddi eraill yw'r unig ateb i argyfwng ariannol parhaol yr eglwysi (a'r gweinidogion eu hunain, wrth gwrs!)

Mae arddull ddigrif a phryfoclyd yr awdur yn gweud y gyfrol hon yn ddifyrrwch pur o'i dechrau i'w diwedd, heb son am roi cipolwg tu hwnt o ddiddorol i ni ar yr amryfal ffyrdd y bu'r brawd wrthi'n "crafu ceiniog" — efo'i ieir a'i foch, ei gamera a'i wasg argraffu, ei bin ysgrifennu a'i lais ar yr awyr. A diolch am y tlodi a orfododd Idwal Jones i gynhyrchu cyfoeth amhrisiadwy y cyfresi "Gari Tryfan" i'w darlledu. Fel plentyn a fagwyd ar y ditectif enwog (ac a dybiodd mai Cymro oedd Tchaikovsky am flynyddoedd wedyn!), gorfoleddwn i ddarllen fod gan Idwal Jones bentwr o hen sgriptiau o gwmpas y lle yn aros am gael eu troi'n nofelau Gari Tryfan, (mae tair wedi ymddangos eisoes). Gwyn eich byd chi, blant Gymru, mae gennych wledd o'ch blaenau!

Troednodyn cyn gorffen. Mae *Enwau Cymraeg i Blant* (Ruth Stephens) yn awr ar ei drydydd argraffiad ac ymddengys y tro hwn fel un o bocedlyfrau'r Lolfa, fformat llawer gwell na'r ffurf hirsgwar, afrosgo braidd a fu iddo cynt. Ceir atodiad newydd gan Hywel ap Robert ar roi cyfenwau Cymraeg i blant a da gweld fod y llyfr defnyddiol hwn yn dal mor boblogaidd â phan ymddangosodd am y tro cyntaf.

"Geiriadur y Gwerinwr" D. Moelwyn Williams. Gwasg Gee, Pris £1.00.
"Nabod Bro a Brodorion" T.J. Davies. Christopher Davies, Pris £1.00.
"Robert Owen" T. Ceiriog Williams. Hughes a'i Fab. Pris 75c.
"Crafu Ceiniog" Idwal Jones. Llyfrau Tryfan, Pris 75c.
"Enwau Cymraeg i Blant" Ruth Stephens, Y Lolfa, Pris 65c.

# Llyma'r Llewod!

Mae pethau'n edrych yn go dda ar y plant y Nadolig 'ma. Rhagor o gyfraniadau gwych ar eu cyfer gan Wasg y Dref Wen: dwy nofel i blant 7-8 oed i fyny sef *Y Lleidr Hotzenplotz* a *Dewin Ym Mwmin-Gwm*, a stori ddifyr *Yr Het*, gyda lluniau llawn-lliw gorchestol Tomi Ungerer.

Deil y wasg hon i gynhyrchu llyfrau o safon eithriadol o dda am brisoedd rhesymol i'w cymharu â llyfrau o'r un ansawdd mewn ieithoedd eraill. Y mae'r gyfres nofelau yn gwneud gwaith gwerthfawr dros ben i geisio diwallu anghenion darllen plant o 7 i 13 a thu hwnt i hynny, oherwydd mai'r sefyllfa wedi bod yn frawychus o safbwynt llyfrau Cymraeg ar gyfer plant sy'n medru darllen yn rhugl. Digon o lyfrau lluniau lliwgar deniadol dros ben, a llyfrau ar gyfer y plant iau - ond ychydig iawn o'r stwff solet y mae ei eisiau ar gyfer plant sydd wedi darganfod mwynhad darllen ac sy'n awchu am lyfrau newydd i'w darllen beunydd.

Croeso calon felly i fenter newydd *Y Lolfa*, sef cyfres *Y Llewod*, nofelau cyffrous i blant. Dwy allan eisoes - chwech arall i amddangos ym 1976 - ac addewid am 30 o gyfrolau i gyd! Dyma beth yw mynd ati o ddifri, a diolch i'r awdur, Dafydd Parri, am wneud - gobeithio y deil ei ddychymyg y straen! Mae hon yn gyfres bwysig oherwydd ei bod yn addo cymaint; fel y dywedwyd uchod, pan fydd plant yn dechrau darllen o ddifri er eu pleser eu hunain, eisiau mwy a mwy i ddarllen sydd arnynt yn barhaol, ac mae hynny'n bwysicach na chael un neu ddau o bethau o safon uchel.

Nid bod lle i gwyno ynghylch safon y ddwy gyfrol hon; mae'r straeon yn gyffrous ac yn afaelgar, mae'r cymeriadau'n gredadwy iawn (ac yn genedlaetholwyr i'r carn, yn naturiol!) ac y mae'r iaith yn llifo'n rhwydd iawn ar y cyfan. Trueni am esgeulustod yn yr adeiladwaith yma ac acw sy'n amharu ar hynt y stori: mi fûm yn pendroni am hydoedd uwch ben clyfrwch Einion ar dudalen 65 yn *Y Dagr Haearn* gan deimlo'n dwp iawn cyn i mi sylweddoli fod gwall yn y stori sy'n gwneud nonsens o'r holl sgwrs gydag Arthur Seimon.

Ond rhaid i mi beidio â dechrau bradychu cyfrinachau ynglŷn â'r straeon . . . . dim ond ymbil ar Sion Corn i sicrhau fod y cyfrolau hyn a rhai'r *Dref Wen* yn cael lle anrhydeddus yn hosan pob Cymro a Chymraes fach y Nadolig 'ma.

*Y Lleidr Hotzenplotz* Otfied Preussler;
*Dewin ym Mwmin-Gwm* Tove Jansson;
*Yr Het* Stori a Lluniau gan Tomi Ungerer. (Y tair o Wasg y Dref Wen)
*Y Llewod a'r Dagr Haearn* a *Y Llewod a'r Diemwntau* Dafydd Parri. (Y ddwy o Wasg Y Lolfa, Pris 65c yr un)




## CEFNOGWCH FFWLBART!

Wele'r rhifyn cyntaf o FFWLBART, comic Cymraeg Caerdydd.

Bydd ar werth o hyn ymlaen am 3c y copi, ond rhaid i ni fod yn siwr o allu gwerthu llawer o gopiau cyn mentro ar rifyn arall. Felly, os dymunwch weld copi arall o FFWLBART yn ymddangos, cwblhewch y ffurflen hon, a'i dychwelyd i: 66 Heol Maendy, Cathays, Caerdydd erbyn *diwedd* Rhagfyr.

ENW . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

CYFEIRIAD . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

YSGOL/GWAITH . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Rhowch X yn y blwch/blychau priodol

a) Rwy'n hoffi FFWLBART a hoffwn gael copi bob tro y daw allan ☐

b) Rwy'n fodlon gwerthu ...... (nifer) copi o FFWLBART bob tro ☐

c) Mae siop yn fy ardal i a fyddai'n fodlon gwerthu FFWLBART (Enw/a chyfeiriad y siop) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

# Gŵyl Ddrama i Gaerdydd?

Hwyrach y gwêl mis Ionawr 1976 agor pennod newydd yn hanes Caerdydd gyda'r arbrawf o gynnal Gŵyl Ddrama Gymraeg yn y brifddinas. Y bwriad gwreiddiol oedd cynnal Cystadleuaeth Ddrama er mwyn codi arian i Gronfa'r Mil o Filoedd, ond mae'r syniad wedi cael y fath dderbyniad brwd nes bod son bellach am sefydlu'r achlysur yn ŵyl flynyddol. Wedi'r cwbl, mae Abertawe wedi cynnal wythnos o Ŵyl Ddrama Gymraeg lwyddiannus dros ben yn y ddinas honno ers blynyddoedd lawer — siawns na all Caerdydd wneud cystal!

Cynhelir y dramâu eleni yn Theatr Bute yng Ngholeg Cerdd a Drama Caerdydd nos Wener Ionawr 30ain a nos Sadwrn Ionawr 31ain. Bydd saith o gwmnïau yn cystadlu: dau gwmni o gapel Salem, un yr un o Heol Crwys, Dewi Sant a Choleg Cyncoed, a dau gwmni o'r Aelwyd. Gobeithir cyflwyno tarian i'r cwmni buddugol.

Yn anffodus, dim ond rhyw 200 o bobl a ddeil y theatr felly mae'r gystadleuaeth am docynnau yn mynd i fod cyn boethed â'r gystadleuaeth ar y llwyfan! Cyst y tocynnau 60c am un noson a phunt am y ddwy noson ac maent i'w cael gan y Parch Raymond Williams, Y Tabernacl a dosbarthwyr lleol. Prynwch eich tocynnau *nawr* rhag cael eich siomi yn ddiweddarach.

FFIDILAU, FIOLAU, SODDGRYTHAU, A THANNAU BAS. Yn eisiau i fyfyrwyr. Ysgrifennwch gyda manylion llawn i focs rhif 05.
Y Dinesydd
55 Heol Gadeiriol Isa
Caerdydd CF1 8LW

CADERNID GWYNEDD YW CARTREFI GWYNEDD
BUDDSODDWCH YNDDYNT!
CYMDEITHAS TAI GWYNEDD
LLOG - 9%
GWERTH EIDDO'R GYMDEITHAS £120,000
YSGRIFENNWCH HEDDIW AT
Dafydd Iwan Cymdeithas Tai Gwynedd
Ffordd Llanllyfni Penygroes Caernarfon
Penygroes 730

# Cymdeithas Gwragedd Ebeneser

Bob bore Sadwrn, mae festri Ebeneser ar agor rhwng 9.30 a 12.30 i werthu coffi a bisgedi i'r cyhoedd. Rhennir yr elw ar ddiwedd pob tymor rhwng achosion dyngarol. Eisoes cyflwynwyd sieciau o ganpunt yr un i Gartref Gwyliau Jane Hodge a Chronfa Minibws Ysbyty Dewi Sant ynghyd â nifer o symiau llai i fudiadau eraill.

Bob Nadolig bydd y gwragedd yn gofalu bod cleifion dwy ward yn Ysbyty Trelai yn derbyn anrheg Nadolig a cherdyn. Trefnir hefyd bod pob un yn cael cerdyn penblwydd yn ei dro. Gyda'r Nadolig yn nesáu, taer erfynnir am gefnogaeth darllenwyr *Y Dinesydd* er mwyn i ni allu parhau'r gwaith hwn.

Llywydd y Gymdeithas eleni yw Mrs Gwenda Spriggs, Gerddi Plasturton, a'r Ysgrifennydd yw Mrs Rhiannon White, 66 Heathway.

Cofiwch alw heibio ar fore Sadwrn. Cewch groeso cynnes, cwpaned o'r coffi gore (a'r rhata!) yn y ddinas a chyfle am sgwrs fach ddiddorol gyda'ch ffrindiau.


## Hen Lyfrau yn eisiau

HEN NEU AIL-LAW
HEFYD CYLCHGRONAU A PHAPURAU

Gallwn alw i'w gweld

**SIOP Y PETHE**

ABERYSTWYTH

☎ 7120


# Cymrodorion Caerdydd

Dechreuodd y tymor newydd ar Hydref 3ydd, ac y mae'r gwaith yn llwyddo eleni eto o dan lywyddiaeth ymroddedig Mrs Sally Sylvan Davies. Dyma ein rhaglen am y flwyddyn newydd:

Ionawr 3, yn Heol Crwys, Noson o Adloniant gan Mr Islwyn Williams, Y Barri; Chwefror 6, yn y Tabernacl, "Traddodiad Bro Myrddin" gan Mr Vincent Phillips, Yr Amgueddfa Werin; Chwefror 28ain, yng Ngwesty'r Parc, Cinio Dathlu Gwyl Dewi. Prif Westai — Miss Norah Isaac; Mawrth 19, yn Eglwys Dewi Sant, "Ymhel â'r Awen" gan Gwyndaf, y Cyn-Archdderwydd a Chofiadur yr Orsedd; Mai 15 — Gwibdaith "Ar Drywydd Clawdd Offa" o dan arweiniad Mr Ivor Rees, BBC; Mai 21, yn Ebeneser — Y Cwrdd Blynyddol.

Byddwn yn danfon hysbysiadau i'n capeli Cymraeg bob mis yn rheolaidd. Clywsom yn ddiweddar nad oedd rhai o'r capeli yn ffwdanu i'w cyhoeddi o gwbl. Efallai mai dyma'r esboniad pam nad ydym yn cael cwmni rhai o'n hen gyfeillion ffyddlon (yn y gorffennol!). Os felly, maddeuwch inni am eich barnu o fynd yn ddifater i'n cymdeithas — a dewch yn ôl atom.

Ein cyfraniad ni tuag at hybu gwaith Cronfa'r Mil o Filoedd yw ceisio casglu tanysgrifiadau oddi wrth aelodau Llys yr Eisteddfod sydd yn byw yng nghyffiniau Caerdydd. Daethom o hyd i ryw 80 ohonynt yn barod, a disgwyliwn ymateb sylweddol i'n cais.

### DYN O'R ENW DAFYDD

**Pleser yw clywed fod Dafydd Iwan yn dod â'i sioe un-dyn hynod lwyddiannus i Gaerdydd o'r diwedd. Fe fydd yn perfformio yn Theatr Reardon Smith nos Wener, Chwefror 6ed am 8.00p.m. Mae'r tocynnau (75c) ar gael oddi wrth Tegwen Evans, 54 Fidlas Road, Llanishen (Ffôn: 754559) a bydd yr elw yn mynd at Ysgol Feithrin Llysfaen.**

# Daw dydd y bydd mawr y rhai Bychain ......




Mae cariad Carol Dix, awdur *The Camargue*, at y rhosdir diffaith, rhamantus hwn sy'n amgylchynu aber afon Rhône yng nghalon Languedoc, yn amlwg. Hon yw bro enwog y teirw duon, y ceffylau gwynion a'i marchogion lliwgar, a'r bardd Frédéric Mistral a wnaeth fwy nag anad neb arall i glodfori hen hanes a thraddodiadau'r wlad a'i hen iaith, y *Langue d'Oc*.

Ceir braslun da o lenyddiaeth Languedoc yn y gyfrol hon, pennod sy'n ennyn chwant ynom am wybod mwy am fywyd a gwaith cymeriadau fel Mistral, Joseph Roumanaille a Baroncelli-Javon, a'u cymdeithas lenyddol enwog, y *Félibrige*. Ond byddai diffyg ymwybyddiaeth Carol Dix o genedligrwydd Occitania, a sefyllfa enbyd y wlad wrth iddi gael ei mygu gan wladwriaeth ganolog Ffrainc yn peri siom i Michael Zwerin mae'n siwr. (Gweler y map). Pwnc ei gyfrol ef, *A Case for the Balkanization of Practically Everyone*, yw cenhedloedd lleiafrifol Ewrop yn bennaf, y Catalwniaid, y Basgiaid, y Llydawyr a'r Cymry, yn ogystal â phobl Occitania; mae'n ymdrin hefyd â'r Lapiaid a'r Indiaid Cochion a'r lleiafrif byd-eang hwnnw, y Sipswn. Pobl y Pedwerydd Byd yw'r rhain oll, y trefedigaethau y *tu fewn* i wladwriaethau canolog, unffurf, mawr y byd.

Mae diddordeb Zwerin yn deillio i raddau o'i sefyllfa ef ei hun, yn ddigenedl a diwreiddiau (fe'i ganed yn Iddew o dras Rwsiaidd yn Efrog Newydd, ac mae'n byw yn Occitania bellach). Mae wedi cynhyrchu gwaith digon hudolus, wedi ei ysgrifennu mewn arddull ysgafn a difyr ond eto gyda theimlad sy'n llawn gyfiawnhau ymffrost y clawr, "... a book written out of love for and out of commitment to the peoples of the Fourth World."

Mae'r bennod ar Gymru yn anfoddhaol yn y ffordd y teimlwn fod unrhyw beth a ysgrifennir amdanom gan berson o'r tu a lan yn anfoddhaol. Mae'n tueddu at or-ysgafnder, mae'n anodd adnabod ein hunain yn y darlun a dynnir ohonom, ac y mae, wrth gwrs, yn anghyflawn: gallem, bob un ohonom, ychwanegu cymaint. Mae rhai beirniadaethau'n cyrraedd y nod; er enghraifft, ein "neisrwydd" ofnadwy fel cenedlaetholwyr, nodwedd a all fod yn wendid ym marn Zwerin.

Ychydig iawn o "neisrwydd" a berthyn i'r gyfrol olaf o'r tair, sef *Memoirs of a Revolutionary* gan Seán MacStiofáin, cynbennaeth yr IRA Darpariaethol. Mae hon yn gyfrol ddiddorol o safbwynt ei bod yn gwrthbwyso adroddiadau rhagfarnllyd y wasg Seisnig ar y rhyfel yng Ngogledd Iwerddon, a rhydd i ni hanes cryno o'r frwydr am Iwerddon unedig a rhydd dros yr ugain mlynedd diwethaf.

Ond wedi dweud hyn oll, rhaid cyfaddef ei bod yn anodd peidio â blino ar ragfarnau MacStiofáin cyn diwedd y gyfrol, rhagfarnau sy'n ei alluogi i gyfiawnhau pob gweithred o'r eiddo'r Fyddin Weriniaethol, waeth mor ysgeler. Er enghraifft, mae'n haeru dro ar ôl tro na fyddent byth am beri marwolaeth pobl ddiniwed yn fwriadol, a'u bod yn ddieithriad yn rhoi rhybudd cyn bomio. Tybed beth yw ei ymateb ef yn awr i'r ymgyrch fomio ddidrugaredd bresennol?

Does dim amheuaeth ynglŷn â dewrder y dyn: dewrder dyn diddychymyg ac anneallus i raddau. Mae'n tueddu i ddiystyru unrhyw safbwynt hablaw ei un ef, o anwybodaeth yn amlach na pheidio: "Dwi ddim yn deall - felly, rwy'n gwrthod" yw'r agwedd.

*"The Camargue" gan Carol Dix. Gollancz. Pris £5.*

*"A Case for the Balkanization of Practically Everyone" gan Michael Zwerin. Wildwood House. Pris £3.95.*

*"Memoirs of a Revolutionary" gan Sean MacStiofain. Gordon Cremonesi. Pris £6.*

# TRIP I'R DWYRAIN

**Yn ddiweddar ymwelais â Tokyo, prifddinas Japan. Na, nid i chwarae rygbi nac i baratoi'r ffordd i dîm Cymru chwaith! Prif bwrpas fy ymweliad oedd mynd i Gynhadledd Ryngwladol ar Addysg y Byddar. Roedd tua dwy fil o bobl yn bresennol: deg a thrigain y cant o Japan, deg y cant o'r Unol Daleithiau ac un Gymraes ofnus! Roedd cynrychiolwyr yno o ran fwyaf o wledydd y byd ar wahan i Rwsia a Tseina.**

Ar fy ffordd i wlad y 'te gwyrdd', arhosais yn Bangkok, prifddinas Thailand. Treuliais dri diwrnod difyr yng nghwmni Dr Julia Brown o Gaerdydd, sydd ar hyn o bryd yn genhades yn Thailand. Ymrodd Julia'n llwyr i geisio dysgu'r iaith ond nid tasg hawdd mohoni, oherwydd fod Thai yn cynnwys cymaint o seiniau cyffelyb. Gall yr un gair wedi ei ynganu mewn tôn wahanol olygu o leiaf bum peth! Ychwanegai'r gwres llethol a'r chwys oer parhaus at anhawster y dysgu.

Diddorol iawn oedd ymweld ag Ysgol y Byddar yn Bangkok. Polisi'r ysgol oedd "Cyfathrebu Cyflawn" trwy annog defnyddio llais, arwyddion a hefyd yr hyn a oedd yn weddill o'r clyw. Un peth a sylwais yn arbennig yn yr ysgol oedd nad oedd y plant yn defnyddio cynorthglyw. Pan ofynnais i'r Brifathrawes beth oedd y rheswm am hynny, dywedodd fod yn rhaid i rieni pob plentyn dalu am gynorthglyw os oedd angen un ar y plentyn, ac ni fedrai'r rhan fwyaf o'r rhieni fforddio talu am y fath beth. Gwridais wrth feddwl mor freintiedig yw ein plant ni adref.

Yn ystod fy niwrnod olaf yn Bangkok cefais fy hun yng nghanol chwyldro! Pan oeddwn mewn siop, rhedodd merch i mewn o'r stryd er osgoi'r bwledi a oedd yn bwhwman o gwmpas. Doedd yr heddlu ddim yn fodlon fod yr heddlu militaraidd yn cael cymaint o bwer ac o ganlyniad, torrodd saethu allan rhyngddynt ar y stryd.

Nid oes angen dweud fy mod yn eithaf balch o gael ymadael a Bangkok. Ond son am fynd o'r ffrimpan i'r tân! Wel, beth dybiech chi oedd yn fy nisgwyl yn Japan? Dim byd llai na chylchwynt. Ie, roedd 'Typhoon Rita' wedi taro'r wlad ac eisoes wedi cipio einioes tri pherson ar hugain. Drwy drugaredd, trodd y corwynt am y môr ac ni wnaeth fwy o ddifrod yng Ngogledd Japan.

Cynhelir y Gynhadledd bob pum mlynedd a'i chartref eleni oedd yr Hotel Imperial, Tokyo. Roedd gan y Japaneaid gryn dipyn i'w gynnig, yn enwedig yn dechnegol; roedd ganddynt arddangosfa wych o bob peiriant ar y farchnad a fedrai fod o gymorth i'r byddar. Y maen tramgwydd mwyaf - ie, fel arfer - oedd eu pris. Mae prisiau Japan mor uchel â'i safon byw!

Hynod ddiddorol oedd ymweld â chlwb i bobl ifanc fyddar. Fe'm hatgoffwyd o glybiau ffermwyr ifanc adre - pam, wn i ddim. Nid oeddynt am adael i eiliad fynd heibio heb iddynt ofyn gwestiwn neu'i gilydd. Mawr oedd eu diddordeb yn y bêl hirgron a'r tîm campus a oedd i'm dilyn. Eu prif ddiddordeb, serch hynny, oedd adwaith ein Llywodraeth at y Byddar. Roeddynt eisiau gwybod a fyddai'n pobl ifanc ni'n protestio ar y stryd er mwyn cael sianel deledu i'r byddar - fe fyddent hwy yn gwneud felly yn aml. Eu prif amcan oedd cael y Llywodraeth i dalu am ganolfan newydd i'r byddar, a chefais gipolwg ar gynllun y pensaer ar gyfer hon. Y fath frwdfrydedd a'r fath haerllugrwydd iachus! Rhwydd hynt iddynt yn eu menter.

Mae'n werth troi'n alltud ambell dro i fedru gwerthfawrogi'n gwlad fach ni a hefyd i geisio deall a gwerthfawrogi gwledydd eraill ein byd. Rhaid dweud i mi deimlo fod canhedlaeth ifanc yn codi sy'n dymuno'r gorau i'w gilydd ac yn ceisio sicrhau hynny. Dyna'r angerdd a deimlais yn fy nghalon wrth ymadael â Japan, angerdd a ail-gyneuwyd wrth weld ein tîm rygbi ni yn cyfnewid eu crysau â'r Japaneaid.

BERYL DAVIES

## Eglwys Efengylaidd Heath

Cynhelir oedfa Gymraeg bob prynhawn Sul am 2.45. Llwyddiant mawr fu'r te croeso i newydd-ddyfodiaid ar ddechrau'r tymor colegol. Cynhelir te arall ar ddydd Sul, Rhagfyr 7fed am bedwar o'r gloch. Daw nifer ynghyd i'r Seiat Feiblaidd ar nos Fawrth am 8.00 o'r gloch yn 199 Heol Allensbank.

Llawenydd yw croesawu dysgwyr Cymraeg i'n plith ar brynhawn Sul. Mae eraill yn mynychu'r dosbarth dysgu Cymraeg a gynhelir yng nghartref Mr Geraint Jones yn 32 Crystal Avenue am 7.30p.m. Croeso i ddysgwyr i'r dosbarth.


**Oriel**

**53 Heol Siarl Caerdydd**
**Teliffon: 0222 395548**

*Dau boster newydd ar gyfer y Nadolig*

1. Carol y Crefftwr, gan Iorwerth C. Peate.
2. Child's Christmas in Wales, gan Dylan Thomas.
   £1.00 yn un.

---


Nifer helaeth o deitlau newydd.
CARDIAU, CALENDRAU, Gêmau.

---

*Darlleniadau awr ginio:*

Ionawr 13 — Dr Derec Llwyd Morgan.
Dyddiad i'w drefnu — Dr Gwyn Thomas.





**DISASTER AT TYNEWYDD**

**by Ken Llewellyn**

"This incredible story of bravery and endurance in the face of almost insurmountable odds is recalled in Disaster At Tynewydd......"

*Derek Hooper, SOUTH WALES ECHO.*

"...... Ken Llewellyn presents the fruits of three years research with a detailed account backed up with diagrams and old photos."

*COAL NEWS.*

"...... so well written that it often reads like a first rate novel.

...... must become a classic of its kind."

*SOUTH WALES ARGUS.*

"...... well illustrated."

*LIVERPOOL DAILY POST.*

bd cyhoeddiadau ap dafydd

# NEWYDDION CWM RHYMNI

## YSGOL IFOR BACH

Yn 1158 anturiodd Ifor Bach, a oedd ar y pryd yn Arglwydd ar werin bobl Senghennydd — ardal yn cyfateb i Gwm Rhymni heddiw i gastell Caerdydd i gipio'r Arglwydd Normanaidd William, Iarll Caerloyw, ei wraig a'i blant a'u cario i fryniau Senghennydd. Fe'u rhyddhawyd ar ôl derbyn addewid gan y Normaniaid y byddai'u hawliau traddodiadol fel Cymry yn cael eu parchu. Hynny'n fras yw'r cefndir hanesyddol sydd wedi ysgogi Ysgol Gymraeg Senghennydd i newid ei henw — o hyn ymlaen fe'i hadnabyddir fel Ysgol Ifor Bach.

## TRETHOMAS

Mae capel Salem, Trethomas, wedi agor Ysgol Sul Gymraeg i gyfarfod â'r alwad am hyn o blant yr ardal sy'n mynychu Ysgol Gymraeg Caerffili. Dywedodd Orthin Thomas, Ysgrifennydd y capel, ei fod yn ffyddiog y byddai'r Ysgol Sul, a gynhelir ar brynhawn Sul o 2.30p.m. hyd 3.30p.m., yn ffynnu a'i bod yn argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol. Ar hyn o bryd mae'r plant dan ofal dwy athrawes — Mrs Dorothy Morgan a Miss Sian Morgan. Daeth newyddion hefyd y bydd Ysgol Feithrin newydd yn agor yn Nhrethomas yn gynnar yn y flwyddyn newydd ac mae gobaith y bydd Morgannwg Ganol yn darparu addysg gynradd yn y Gymraeg yn yr ardal yn y dyfodol agos.

## EISTEDDFOD

Cafwyd noson hwyliog ar ffurf Ffug Eisteddfod yng Nghymdeithas Gymraeg Caerffili. Rhannwyd y gynulleidfa'n ddwy ar gyfer y cystadleuthau, a baratowyd ymlaen llaw gan Alun Charles. Ymhlith uchafbwyntiau'r noson, a lywyddwyd yn fedrus gan Islwyn Morgan, cafwyd adroddiad ysgytiol gan Mr H.P. Richards a gwefreiddwyd y gynulleidfa gan dalent operatig Eiry Palfrey. Cafwyd beirniadaethau craff a chreulon gan John Albert Evans ar yr adrodd a'r llên a chan Ieuan Lewis ar y canu. Daeth y noson i ben gyda Mr D.J. Owen yn arwain y dorf gyda'i faton amryliw ar batrwm 'Oes Gafr Eto?'. Mynegwyd diolch y Gymdeithas i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson gan Lynette Jones.

Gyda llaw, glywsoch chi'r stori (a enillodd ar y gystadleuaeth stori ddigri) am y ddynes yn Rhymni a oedd yn sboncio'i llygad gwydr ar y pafin wrth aros am y bws er mwyn gweld a oedd lle ar y top?!

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn rhaglen y Gymdeithas ar nos Lun, Rhagfyr 15, gyda noson ysgafn dan ofal Dyfed Glyn Jones. Ac yna, ar nos Lun, Ionawr 19, disgwylir Dr Ceinwen Thomas i draddodi darlith ar 'Y Wenhwyseg', gyda phwyslais ar dafodiaith ardal Caerffili. Cynhelir y ddau gyfarfod yn festri Bethel.

## AELWYD CAERFFILI

Mae pwyllgor yr Aelwyd wrthi'n brysur yn ceisio moderneiddio'r cyfleusterau sydd ar gael yn neuadd capel Tonyfelin. Maent eisoes wedi sicrhau paent yn rhad ac am ddim o gwmni hael Berger ac mae'r paratoadau ar y gweill i gael y rhieni a'r aelodau i baentio'r waliau. Yn ogystal mae'r Aelwyd wedi agor Cronfa Adeiladau ac yn gobeithio casglu £500 i dalu am oleuadau a thanau newydd. Cafwyd y cyfraniad cyntaf i'r Gronfa yn dilyn Ffair Sborion lwyddiannus a bydd rhagor o weithgareddau yn cael eu lansio yn y flwyddyn newydd.

## AELWYD BARGOED

Yn dilyn cyfnod byr o grwydro'n yr anialwch mae Aelwyd Bargoed wedi llwyddo i ddarganfod canolfan newydd. O hyn ymlaen bydd yr Aelwyd yn cyfarfod bob nos Lun am 7 o'r gloch yn festri capel Hebron, Gelligaer.

## GWILYM MORRIS

Braf yw gallu nodi fod y Parchedig Gwilym Morris, Caerffili, wedi dychwelyd adref yn dilyn cyfnod yn Ysbyty'r Glowyr a'i fod yn parhau i wella.



Ffotograff a ymddangosodd yn y Daily Sketch, 11 Tachwedd 1910. Rhan o arddangosfa a luniwyd gan Ysgol Ramadeg Tonypandy ym 1974 fel rhan o Flwyddyn y Cymoedd, o'r enw Terfysg Tonypandy 1910-11. Yn yr Amgueddfa Genedlaethol, Rhagfyr 20-Ionawr 11.



# NADOLIG LLAWEN

ODDIWRTH

HTV CYMRU WALES

RHAGLENNI NADOLIG AR HTV CYMRU

## DYDD SADWRN Rhagfyr 20 7.30p.m. SIÔN A SIÂN

1 SION A SIAN
Ar y Sadwrn cyn y Nadolig (Rhagfyr 20) fe fydd un o gorau buddugol Eisteddfod Genedlaethol Bro Dwyfor, Côr Pensiynwyr Bro Gele, yn helpu Dai Jones a Jenny Ogwen i ddathlu'r Ŵyl ar 'Siôn a Siân'.

Gan mai rhifyn o ddathlu fydd hwn, dim ond dau bâr priod fydd yn cystadlu yn y modd arferol — Mr a Mrs Huw Williams o Fachynlleth, a Mr a Mrs Elfryn Jones o Gwm Ifor, Manor Deilo, Llandeilo.

## DYDD SUL Rhagfyr 21 6.15p.m. LLUSERN

2 LLUSERN
Yn briodol, y rhaglen grefyddol 'Llusern' fydd yn seinio nodau cyntaf wythnos y dathlu ar HTV Cymru ar ddydd Sul, Rhagfyr 21, am 6.25 o'r gloch.

Fe fydd y 'Llusern' arbennig hon yn gosod naws yr Wyl trwy eitemau o gân, dawns, a ffilm.

Daw Cantorion Ardwyn i ganu 'Offeren Nadolig' Charpentier, ac fe fydd rhai o blant Ysgol St Baruc, Y Barri, yn cyflwyno dawns greadigol yn portreadu'r Ŵyl.

Llai traddodiadol, ond llawn mor dwfn ei neges, fydd ffilm blaengar o wlad Sweden. Yn y ffilm ceir y stori o ddehongliad cyfoes o ystyr gwyrth y Geni gan fachgen a merch sydd newydd dderbyn y goleuni Cristnogol. Mae'r pâr yn mynegi eu gweledigaeth newydd yn nhermau eu cymdeithas eu hunain.

## DYDD LLUN Rhagfyr 22 2.00p.m. HAMDDEN

3 HAMDDEN
Rydym i gyd yn gyfarwydd â chlywed seiniau hyfryd clychau'r Llan wrth fynd am dro ar fore'r Nadolig, ond yn ystod 'Hamdden' ar ddydd Llun, Nadolig 22, am 2 o'r gloch, fe ddaw'r clychau i'ch cartrefi clyd eich hunain.

Clochyddion Llaw o'r Bontfaen ym Mro Morgannwg fydd yn gyfrifol am hynny wrth iddynt ymarfer eu hen grefft; yn y stiwdio. Dyna un o'r arferion rydym ni fel Cymry yn gyfarwydd iawn â nhw ar adeg y Nadolig — ond nid felly, o bosib, i ferch ifanc o'r Wladfa.

Eleni fe fydd Maria Zampini yn treulio'r Nadolig yng Nghymru am y tro cyntaf, ac fe fydd hi'n siarad am ei hargraffiadau yn ystod 'Hamdden'.

Daeth Maria draw i Gymru gyda'r fintai o Batagonia yn ystod yr Haf, ond fe benderfynodd aros gyda ni am gyfnod pellach wrth i'r gweddill o'i chyd-wladwyr deithio yn ôl i'r Ariannin. Yn ogystal â'r eitemau diddorol hyn, fe fydd 'Hamdden' yn cynnwys eitemau ar goginio ar gyfer y Nadolig ac ar addurniadau lliwgar a phwrpasol i'r tŷ.

## DYDD MAWRTH Rhagfyr 23 10.30p.m. YR WYTHNOS

4 YR WYTHNOS
Ar nos Fawrth am 10.30 o'r gloch yr hwyr, fe fydd 'Yr Wythnos' yn gadael ei rhych arferol o drafod pynciau llosg y dydd, a bydd Gwilym Owen yn gwahodd pump o gyfeillion oedd yn gyd-ddisgyblion gydag ef yn ysgol Ramadeg Llangefni 25 mlynedd yn ôl i drafod o gwmpas bwrdd cinio rai agweddau ar fywyd Cymru yn ystod 1975. Y gwesteion fydd y Dr John Henry Jones, sydd ar staff yr Ysgol Feddygol yng Nghaerdydd, yr Athro Bedwyr Lewis Jones, pennaeth Adran Gymraeg, Coleg Prifysgol Cymru, Bangor, Dr Harri Pritchard Jones, seiciatrydd yn Ysbyty Hensol, Caerdydd, y Parch W.H. Pritchard, gweinidog y Gopa, Pontardulais, a J.O. Roberts, darlithydd yn Adran Ddrama, Coleg y Normal, Bangor.

## DYDD MERCHER Rhagfyr 24 am 10.15p.m. HWYRNOS

5 HWYRNOS
Yn unol â'i arferiad, fe fydd Gwyn Erfyl yn troi stiwdio 'Dan Sylw' yn aelwyd o groeso ar nos Fercher, Rhagfyr 24, am 10.30 yr hwyr. Fe fydd ei gyfeillion yn canu, yn adrodd straeon ac yn hel atgofion mewn rhaglen a fydd yn cyfuno llawenydd, diddanwch a hefyd, fe obeithiwn, rin yr hen Ŵyl o gofio 'geni'r Iesu yn nyddiau Herod frenin'.

Ymysg y cwmni llon fydd Cantorion Gwalia o dan arweiniad Rhys Jones, y delynores Eluned Pierce, yr adroddwr John Roberts, y consurwr Rovi, a'r canwr enwog o Frynaman, Delme Bryn Jones. Cewch wrando ar atgofion Mrs Ann Mainwaring o Bort Talbot, am ei dyddiau fel plentyn llawer blwyddyn yn ôl yn hen Gapel y Groes, ac o dro i dro yn ystod y rhaglen fe gewch weld Mrs Buddug Thomas yn paratoi cyfleth yn y stiwdio.

## DYDD NADOLIG am 11a.m.

6 I'R PLANT
Yn ddigon naturiol, fe fydd hwyl a sbri arbennig yn holl raglenni plant yn ystod wythnos y Nadolig —'Ble yn y Byd' (Dydd Mawrth, Rhagfyr 23, 4.20p.m.), 'Rhifeddodau' (Dydd Mercher, Rhagfyr 24, 4.15p.m.), a 'Fyny Fan 'Na' (Dydd Nadolig, 11a.m.). Fe fydd holl wylwyr ifainc 'Fyny Fan 'Na' yn cael tri chwarter awr yng nghwmni eu cyfeillion ar y cwmwl — ac mae'n eitha siwr y bydd ymwelwyr tra phwysig yn ymuno â'r dathliadau!

## DYDD NADOLIG am 11p.m.

7 'BENEATH THE CHRISTMAS TREE'
Ar noson y Nadolig, fe fydd Syr Geraint Evans yn arwain llu o gerddorion Cymreig — gydag ysbeidiau rhyfeddol gan Spike Milligan — mewn rhaglen a fydd yn difyrru pobl ymhob rhan o wledydd Prydain.

Darlledir 'Beneath the Christmas Tree' ar holl sianeli annibynnol am 11 o'r gloch yr hwyr.

Yn y rhaglen, fe fydd Syr Geraint, Stuart Burrows, Eirian James, Côr Poliffonig Caerdydd, Seindorf Plant Eveswell, Casnewydd, Côr Coleg Crist, Aberhonddu, Sinffonia Bryste — a Spike Milligan.

*Llawenydd yr ŵyl i chwi oll a Blwyddyn Newydd Dda*

# Gorchestwaith gan Christine



Yn ffefryn gan arholwyr ond yn anfynych ei llwyfaniad, mae *Blodeuwedd* yn ddrama gref yn y traddodiad barddol mawr. Ynddi, rhydd Saunders Lewis inni bortread o fenyw sy'n chwilio am hunaniaeth iddi ei hun ac sy'n dinistrio bywydau'r rheini sydd o'i chwmpas yn y broses. Craidd problem Blodeuwedd yw ei bod hi'n ddiwreiddiau ac yn ynysig mewn sefyllfa nas arfaethwyd ganddi hi; ni all cariad na chwantau'r cnawd roi iddi'r teimlad o berthyn y crefa amdano nac ychwaith ei rhyddhau o'i "arall-fydolrwydd".

Yr ansawdd "arall-fydol" bwysig hon yn *Blodeuwedd* oedd ar goll yng nghynhyrchiad Theatr yr Ymylon o'r ddrama hon a welwyd yn Theatr Sherman ddiwedd mis Tachwedd. Tanseiliwyd yr awyrgylch ledrithiol a awgrymir gan iaith gyfoethog y ddrama i raddau helaeth gan y cefndir moel a'r dewis ansensitif o gerddoriaeth. Ceid effeithiau sain a oedd yn gwbl hanfodol i rediad y ddrama yn peri chwerthin ymhlith y gynulleidfa; ni ellir meddwl am un achlysur pan ddefnyddiwyd y goleuadau i wir greu'r gwyll parhaol sy'n nodweddu byd y prif gymeriadau. Yn wir, yr argraff gyffredinol oedd fod y cyfarwyddwr wedi dewis dehongliad syml ac amlwg yn hytrach nag un dyfnach a mwy cynnil. O ganlyniad, roedd rhediad y ddrama yn fynych yn afrosgo, ac ymdriniwyd yn drwsgl â digwyddiadau hanfodol bwysig, megis lladd Llew, er enghraifft. Byddai'r gwrthdrawiad terfynol rhwng Gwydion a Blodeuwedd wedi bod yn llawer mwy chwerwddwys o'i chwarae'n fwy cynnil gyda chyffyrddiad tyner yn hytrach na rhoi iddo'r driniaeth ddramatig lawn a gafodd.

Serch hynny, bron na wnaethpwyd yn iawn am yr holl ddiffygion hyn gan bortread gwych Christine Pritchard o Flodeuwedd. Rhoddodd inni berfformiad a ymatebai i fawredd y ddrama; gyda gonestrwydd mawr, dyma hi'n gwneud Blodeuwedd yn fenyw a ddeallai ystyr ymrwymiad llwyr ac a feddai ar y nerth i dderbyn canlyniadau ei gweithredoedd. Fel ag sydd hwyrach yn addas mewn drama o'r fath, disgleiriai'r merched a chafodd Christine Pritchard gefnogaeth gynnes gan Olwen Rees, fel Rhagnell. Llwyddodd y ddwy i greu argraff gref o'r berthynas rhyngddynt, a'r cydymdeimlad a alluogai Rhagnell — a neb arall — i ddeall ymddygiad Blodeuwedd a thosturio wrthi yn ei chyflwr trist.

Yn anffodus, o blith y dynion, dim ond Frank Lincoln fel Llew Llaw Gyffes a oedd yn yr un cae â'r merched. Cyfleodd ddatblygiad Llew o'r gwr ifanc, hunan-gyfiawn sy'n methu â deall Blodeuwedd, i'r aeddfedrwydd a'i gwna hi'n bosibl iddo gyfaddef ar ddiwedd y ddrama ei fod ef wedi ei methu hi. Roedd Robin Gruffydd yn gwbl anghywir fel Gronw Pebr a chreai hyn wacter yng nghalon y ddrama gan ei bod yn anodd credu yn ei flys rhywiol am Flodeuwedd, na synnu ar ôl hynny ei fod wedi ei gwrthod.

Serch hynny, roedd y perfformiad hwn yn ymgais lew i gyflwyno drama sy'n gofyn am adnoddau hynod mewn cwmni sy'n mentro arni ac yr oedd yn werth ei gweld fel cyfanwaith, hyd yn oed heblaw am berfformiad cryf anghyffredin Christine Pritchard.

Ms BLODYN

# Cymorth i'r Merched

Beth fyddai'ch ymateb greddfol chi pe baech drwy ryw amryfusedd wedi cydio mewn procer eiriasboeth neu losgi cefn eich llaw wrth dywallt dŵr berwedig i'r botel ddŵr twym — estyn am yr eli melyn neu'r naw math o oel? Ac erbyn cael gafael ar y stwff a'i ddefnyddio, fe fyddai'r pothelli eisoes wedi codi a chithe'n dal i wingo! Ond pe baech chi'n un o'r garfan iach a fu'n gwrando ar gynghorion proffesiynol Mrs Alwenna Thomas ym mis Hydref fe fyddech wedi'i bachu hi i'r tap dŵr oer neu'r ffynnon agosaf cyn pen chwinciad a'r "dŵr gloyw glan" yn tynnu'r brath o'r llosgiadau cyn i chi gael cyfle i weiddi am gymorth.

Erbyn hyn fe wyddom un ac oll sut i ymateb i bob math o ddamwain all ddigwydd o fewn i furiau'n cartrefi ac yn y byd mawr, peryglus oddi allan! Cymorth Cyntaf — dyna ydio! Marciau llawn i'r "claf" hawddgar a ddioddefodd bob rhyw driniaeth yn siriol ac a lwyddodd i ddadebru ar ôl y cusan adfer! Ac os na lwyddwch i ddilyn y cyfarwyddiadau — wel, mae rhif ffôn Mrs Thomas gennyf...!

Wn i ddim yn union beth oedd ym mwriad y pwyllgor eleni, ond wedi'n hyfforddi yn y grefft o roi cymorth cyntaf i'r corff, fe'n harweiniwyd ni gan Mrs Mears, Mrs Valerie Owen a Mrs Watcyn Powell i ystyried sut y gallem roi help llaw mewn cyfyngder o fath arall. Cip ar waith y Samariaid a gawsom gan Mrs Mears a diddorol oedd deall mai anaml iawn y câi gais i ateb galwad yn yr iaith Gymraeg. Cawsom gan Mrs Owen gip ar y problemau dyrys sy'n wynebu teuluoedd Cymraeg eu hiaith lle mae 'na blentyn dan anfantais meddyliol a dim darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg i'w gael yn yr ardal. Mae yna bwyllgor cenedlaethol o Ferched y Wawr yn ymchwilio i'r broblem hon ar hyn o bryd ond tybed na allem ni yng Nghaerdydd wneud rhywbeth ymarferol yn lleol? Drwy golofnau'r papur hwn efallai? Fe gyffyrddwyd calonnau pawb gan eiriau Mrs Owen — ond yr Ynad Heddwch a gafodd y gair olaf y tro hwn. A dyna beth oedd *multum in parvo*; cipolwg hynod ddiddorol ar waith y llysoedd gan Mrs Powell ac fel y dywedodd un gwrandawr, "garw na fyddai mwy o bobl tebyg iddi ar y Fainc ledled ein gwlad".

Profodd y ffrydlif o gwestiynau a ddaeth yn sgil y sgyrsiau hyn pa mor llwyddiannus y bu'r ddwy noson hon o frethyn cartref, a da y dywedodd Miss Eiry Humphreys, wrth ddiolch, mai dyma'r ffordd orau posib i ni ddod i adnabod ein gilydd yn well.

Serch hynny, rhaid wrth amrywiaeth, a theithio i Rwsia yng nghwmni Mrs Beti Wyn Davies a wnawn y mis hwn gan ddathlu Hen Galan gyda'r Dysgwyr ar Ionawr 14eg. Cyn ffarwelio â 1975, rhaid diolch i bawb a fu'n gysylltiedig â'r noson o hil a hwyl a gawsom yn y Castell ar Dachwedd 7fed, ac nid yn lleiaf i Faer Caerdydd am ei barodrwydd wrth gydsynio i logi'r castell i Ferched y Wawr am bris eithriadol o isel. Hebddo, fyddai'r un geiniog o elw gennym i'w roi i Gronfa'r Mil o Filoedd.

SHALOM! SHW MAE? (parhad)

Yn ychwanegol at hyn, roedd y cyd-bwyllgor wedi trefnu i argraffu rhaglen a oedd yn llawn o hysbysebion o bob math ac fe ddaeth gwerthu'r rhain â chryn swm o elw i'r gronfa a oedd yn cael ei rhannu yn y diwedd rhwng pwyllgor yr Eisteddfod a Phwyllgor Tŷ Hillel — sef adeilad a fydd yn lety i fyfyrwyr Iddewig fydd yn dod i Gaerdydd i astudio.

Gwerth mawr y cyngerdd hwn oedd iddo ddwyn dwy gymdeithas yn glosiach at ei gilydd. Bu'n gymaint o lwyddiant nes bod nifer yn teimlo y dylid ystyried cydweithrediad tebyg yn flynyddol — pe na bai ond i barhau'r adnabod newydd hwn.

Llywydd y noson oedd Syr Cennydd Traherne a chafwyd ganddo araith bwrpasol a swm anrhydeddus o arian i'r gronfa. Roedd ganddo neges yn y rhaglen yn ogystal, wedi'i hysgrifennu yn Gymraeg, Hebraeg a Saesneg.

# AGOR TYMOR

Peth braf ydy cael un gêm ryngwladol yn y Stadiwm Genedlaethol cyn y Nadolig fel rhagflas, a'r gwrthwynebwyr heb fod yn ddigon da i'n curo ni. Ond gan bwyll bach, onid dyma a ddywedasom ni yn 1966 hefyd a chwi gofiwch beth a ddigwyddodd ar Rhagfyr 3ydd y flwyddyn honno yn y gêm na fyddai hi ddim yn ormod o dasg inni ym meddwl pawb ohonom ni. Colli i'r Awstraliaid o bedwar pwynt ar ddeg yn erbyn un-ar-ddeg, ond rhaid dweud eu bod nhw'r diwrnod hwnnw yn dîm da gyda Ken Catchpole, y mewnwr (a'r capten gan fod John Thornett yn dioddef oddi wrth ryw glefyd neu'i gilydd) a'i faswr, Phil Hawthorne, yn chwarae'n wych. Un trosgais, un cais ac un gôl gosb yr un oedd hi gyda gôl adlam Hawthorne yn rhoi'r fuddugoliaeth iddyn nhw.

Yn y gêm hon enillodd Gerald Davies ei gap cynta (un cap sy ganddo o hyd wrth gwrs er iddo chwarae tair ar ddeg ar hugain o weithiau i'w wlad) a meddai Clem Thomas yn ei adroddiad yn y papur Dydd Sul, "Chwaraeodd Barry John yn rhagorol yn ei gêm ryngwladol gynta". Ie, gêm gynta Barry a Delme Thomas hefyd. Tybed a ydych chi'n cofio Barry'n bylchu'r amddiffynfa mor gelfydd yn nechrau'r gêm? A faint tybed a fyddai'n fodlon proffwydo'r diwrnod hwnnw y byddai hwn yn ennill cymaint o glod iddo'i hun ac i'w wlad cyn iddo roi gorau iddi yn 1972? John Dawes gyda llaw a sgoriodd ail gais Cymru yn y gêm yn 1966, a chyda'r ffaith anwadadwy honno fe drown ein golwg i'r dyfodol at ddydd Sadwrn, Rhagfyr 20ain, 1975.

'Does fawr i ddadlau yn ei gylch ynglŷn â'r dewis (dri-'iau cyn gêm Abertawe a'r Awstraliaid ydy hi gyda llaw), gan gofio ddisgleiried oedd y tîm a chwaraeodd ym Mawrth yn erbyn y Gwyddyl druain. A beth bynnag, mi fydd y tîm wedi ei ddewis a'i gyhoeddi cyn i bawb ddarllen y rhifyn hwn o bapur y Brifddinas. Tacteg felly. Y dacteg a fu'n llwyddiannus ym Mawrth unwaith yn rhagor, bydd hi'n bosibl rhagori ar hyd yn oed y gêm honno gan nad ydy'r Awstraliaid yn rymus iawn yn eu sgrymio a'u 'sgarmesoedd. Mewn nhw'n gallu ymosod yn bur ddeheuig o bryd i'w gilydd fel y dangosasan nhw ar Y Strade ac mewn ambell gêm yn y gwledydd eraill, ond pan fyddan nhw yn erbyn blaenwyr caled sy'n cydchwarae yn y symudiadau agored a'r 'sgarmesoedd heb sôn am y sgrymiau gosod fe'u ceir yn brin o sawl rhinwedd angenrheidiol. Rhaid nodi bod sawl rhedwr galluog ymhlith eu holwyr — McLean, Hindmarsh a Batch — yn enwedig yr asgellwr Batch, ond prin fydd y cyfle a gan' nhw i redeg yn y Stadiwm Genedlaethol. A chyda phob parch, 'fyddai neb yn honni bod eu holwyr nhw'n well rhedwyr na'r rhai fydd yn eu herbyn nhw.

Da fyddai ysgrifennu gair neu ddau am bob un o'n tîm ni ond digon y tro hwn fydd rhoi ychydig o frawddegau am un yn unig ohonyn nhw — hwnnw sy'n ymgorfforiad o bob rhinwedd y dymunem ni ei weld ar gae'r bêl hirgron — Gareth Edwards. Ei unfed cap a deugain yn olynol — mae hyn ynddo'i hun yn anghredadwy — a'r chwaraewr yn anad neb a fyddai'n ddewis cynta unrhyw bwyllgor dewis neu unigolyn a wyddai'r peth lleia' am y gêm. Mae'r munudau cyffrous y mae e wedi eu rhoi inni yn ddi-ri', ond honno ym 1972 yn erbyn Yr Alban oedd y mwya' hyd yma. 'Does dim rhyfedd i Spike Milligan ddweud y dylid codi capel i goffáu'r cais hwnnw. Ac erbyn Mawrth 6ed bydd record Ken Jones wedi ei thorri gan y mewnwr o Wauncaegurwen onid anefir e. Fyddai neb yn haeddu'r record o chwarae pump a deugain o weithiau dros ein gwlad — ac yn olynol hefyd, cofier — yn fwy na Gareth Edwards.

THOMAS DAVIES


**Os hoffech gael sgwrs yn Gymraeg wrth chwilio am ddarnau sbâr i'ch car, ymwelwch â:**

**METELAU LLANDOW**

**(ar Ystâd Fasnachol Llandow, ger Llanilltud Fawr) a gofynnwch am Mr John Pugh.**

**Mynwent o gerbydau a mynydd o sgrap!**
**RHIF FFÔN: LLANILLTUD FAWR 2756**


# Llewyrch Llanilltud Fawr

## YR YSGOL FEITHRIN

Yn ystod tymor y Nadolig, bu pymtheg o blant yn mynychu'r ysgol am dri bore yr wythnos, a chan fod pump o blant ar y rhestr aros, gobeithir agor am bum bore y tymor nesaf, gyda'r plant hynaf yn dod am dri bore, a'r plant ieuengaf am ddau fore.

Cynhaliwyd Noson Lawen ddifyr iawn ym mis Medi, yn sgubor John y Llaeth ac ym mis Hydref mewn Noson Goffi yn yr ysgol, trosglwyddwyd siec o £100 gan Gronfa Glyndwr i helpu tuag at gostau teithio plant yr ysgol a fydd yn mynd ymlaen i Un?d Gymraeg Ysgol Y Bontfaen.

Bob nos lau yn ystod y tymor, bu'r is-bwyllgor codi arian wrthi'n brysur yn gwneud teganau ar gyfer Ffair Nadolig sydd i'w chynnal yn yr ysgol ar fore Sadwrn, Rhagfyr 6ed. Ar nos Fawrth, Rhagfyr 16eg, cynhelir Cyngerdd Nadolig yn yr Ysgol Gyfun gan Gôr Llanilltud Fawr, a bydd yr elw yn mynd tuag at yr ysgol feithrin. Ar nos Sul, Rhagfyr 21ain mae Cymdeithas yr Ysgol Feithrin yn gobeithio cynnal Gwasanaeth Carolau yn y Capel Wesle gyda Chôr Meibion Y Bontfaen yn cymeryd rhan.

## Y CAPEL

Ym mis Medi cynhaliwyd gwasanaeth bedydd yn y Capel Cymraeg gyda'r Parch Gareth Watts a'r Parch Trebor Lloyd Evans yn gweinyddu. Bedyddiwyd pedwar o blant - Gwenllian (merch Dewi a Kathryn Lloyd Evans o Lanilltud), Gareth (mab Myrfyn a Rhiannon Williams o Graig Penlline), Lowri (merch David a Pat Richards o'r Bontfaen), a Llio (merch Elgar a Mari Elgar o Bencoed). Peth braf oedd gweld tua cant o bobl yn y gwasanaeth.

Ym mis Hydref cynhaliwyd gwasanaeth diolchgarwch dan ofal y Parch Gareth Watts, ac ar ôl yr oedfa dosbarthwyd y llysiau, ffrwythau, a'r blodau i rai o hen bobl y dref.

Ym mis Tachwedd bu Mr Dylan Wyn o Goleg Coffa Abertawe yn pregethu, ac ar Ragfyr y 7fed cynhelir gwasanaeth o dan ofal y Parch Gareth Watts.

Ar nos Fercher, Rhagfyr 24ain, yng nghapel Bethesda'r Fro, cynhelir gwasanaeth Cymraeg. Dechreuir y gwasanaeth am 10.30p.m. ac os oes unrhwun am ddod i'r oedfa ac heb fod yn siwr o'i ffordd i Fethesda'r Fro, cysyllter â Dewi Lloyd Evans (Llanilltud Fawr 2172).

## Y DYSGWYR

Yn wythnos gyntaf y tymor yn y Ganolfan Addysg, daeth 22 i ddosbarth y flwyddyn gyntaf, a 17 i ddosbarth yr ail flwyddyn. Bu nifer o ddysgwyr hefyd yn ymarfer eu Cymraeg bob nos Lun yn y King's Head, ac ar gyrsiau un-dydd Cymdeithas yr Iaith yn Mhen-y-bont a'r Rhws.

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 134 Ffordd Parc Ninian, Caerdydd; ffôn: 28917.*
*Hysbysebu gan Gyhoeddiadau ap Dafydd Cyf, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd: ffôn: 396262.*